

Atodiad 2 – Sylwadau Pwyllgor Craffu Addysg & Economi, 15 Hydref, 2018

Annwyl Arweinydd

Diolch am gyfle i graffu'r ddogfen gynnig ar gyfer Cynllun Tw far gyfer Economi Gogledd Cymru yng nghyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fore heddiw. Gan fod y pwyllgor wedi cael cyfle i graffu ar faterion wrth i'r datblygiadau symud ymlaen, noder fod y prif sylwadau/ materion a nodir isod yn ategol i'r sylwadau a gyflwynwyd eisoes gan y Pwyllgor Craffu mewn cyfarfodydd blaenorol.

I grynhoi:

- **Cafwyd cadarnhad fod y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i'r cyfeiriad strategol ac yn dangos eu cefnogaeth i fwrw ymlaen gyda'r Ddogfen Gynnig.**

O ran sylwadau/ risgiau ychwanegol adnabuwyd, noder y prif bwyntiau a ganlyn:

RISGIAU ARIANNOL

- Mae'n allweddol parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau'r risgiau ariannol – yn arbennig y risgiau perthnasol i'r llif ariannol a'r risg o golli grantiau os nad oes rheolaeth ariannol gadarn yn ei le.
- Argymhellir y dylid parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru i geisio cadw'r dreth annomestig (neu elfen o leiaf) fel modd o leihau'r costau i awdurdodau lleol.
- Fodd bynnag, rhaid bod yn effro i'r risg ariannol ddisgyn ar awdurdodau lleol a pharatoi ar gyfer hynny trwy ystyried y proffil prosiectau a gwariant.

RISGIAU LLYWODRAETHU

- Nodwyd y risg petae un o bartneriaid y cyllun yn tynnu'n ôl, a fod hynny am gael ei reoli gan y Cyntundeb Partneriaeth sy'n cael ei ddatblygu yn gyfredol.
- Nodwyd fod angen eglurder ynghylch y fframwaith llywodraethu i'r dyfodol, gyda'r fframwaith llywodraethu i sicrhau trefn atebolrwydd clir yr Arweinyddion i'r Cynghorau unigol

RISGIAU GWLEIDYDDOL

- Nodwyd y risg i endyd cenedlaethol Cymru trwy ddatblygiad y cynllun.

RISGIAU PROSIECTAU

- Bydd angen ceisio sicrhau fod busnesau bychain ac amaeth yn cael budd o'r cynllun yn ogystal a'r cwmnïau mawr.

Yn gywir,

Cynghorydd Beth Lawton,
Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (ar ran y pwyllgor)